# Cynllun Iaith Blank

## Datblygu Medrau Rhesymu Llafar

- Y lefelau wedi creu yn dilyn gwaith ymchwil yn yr Unol Daleithiau yn 1978 gan Blank, Rose a Berlin.
- Y tri wedi edrych ar ba mor gymhleth oedd yr iaith a ddefnyddiwyd ar lawr dosbarthiadau.
- Creu pedair lefel wedi eu graddio yn ôl cymhlethdod y cwestiwn.

# Lefel 1 : DYNA FO

- **Mae'r ateb o dy flaen di.**

- Cysylltu, adnabod ac enwi pethau gan edrych ar y gwrthrych cyfan.
- Enwi pethau .

***"Be ydi hwn?" "Lle mae'r gacen?"***

- Cysylltu (matsio) pethau.

***"Chwilia am un fel hwn"***

- Cofio beth mae newydd ei weld.

**"Beth welais ti ar y bwrdd?"**

# Lefel 2 : MEDDWL A CHWILIO

**Mae'r ateb o dy flaen di ond rhaid chwilio amdano.**
**Ateb - Pwy? Beth? Lle?**

- Edrych ar ran o'r gwrthrych, disgrifio pethau ac adnabod beth a wneir efo pethau.
- Ffwythiant (function) gwrthrych.
- ***"Hefo beth wyt ti'n torri" (siswrn)***
- Disgrifio golygfa.
- ***"Beth sy'n digwydd?"***
- Adnabod pwy.
- ***"Pwy sy'n cael ei benblwydd?"***

# Lefel 2 : MEDDWL A CHWILIO

**Mae'r ateb o dy flaen di ond rhaid i ti chwilio amdano. Ateb - Pwy? Beth? Lle?**

- Cysylltu pethau sy'n mynd efo'i gilydd.
  ***"Beth sy'n mynd efo cyllell?"***
- Meddwl am ddau o nodweddion.
  ***"Chwilia am rywbeth sy'n felys ac yn goch" (mefus)***
- Adnabod gwahaniaethau.
  ***"Sut mae'r rhain yn wahanol?"***
- Rhoi esiampl o fewn categori.
  ***"Chwilia am ffrwyth" (oren)***

# Lefel 3 : MEDDWL A CHWILIO

**Meddwl am syniadau, rhoi ei hun yn 'sgidiau rhywun arall, rhagweld beth fydd yn digwydd nesaf.**

***"Dydy'r ateb ddim o dy flaen di. Chwilia am y cliwiau a meddwl am ateb dy hun."***

- Rhagweld .

  ***"Beth all ddigwydd nesaf?"***
- Edrych ar lun.

  ***"Beth mae'r ???? yn ei ddweud?"***

  ***"Sut mae ??? yn teimlo?"***
- Diffinio .

  ***"Beth mae 'dathlu' yn ei feddwl?"***

# Lefel 3 : MEDDWL A CHWILIO

**Meddwl am syniadau, rhoi ei hun yn 'sgidiau rhywun arall, rhagweld beth fydd yn digwydd nesaf.**

***"Sut mae rhain yn debyg i'w gilydd?"***

- Deall cwestiynau negyddol *.*

***"Dangos yr un sydd ddim yn binc."***

- Dweud stori neu ddisgrifio digwyddiad.

***"Dweud wrthai am dy barti penblwydd di."***

- Son am ddilyniant (sequence) syml*.*

***"Dweud wrthai sut i wneud brechdan."***

# Lefel 4 : YN DY BEN DI

**Datrys problemau ar lefel fwy cymhleth, rhoi esboniadau a barn eu hunain. Ateb cwestiynau 'Pam?'**

***"Dydi'r ateb ddim i'w weld. Rhaid i ti feddwl am ffordd i ddatrys y cwestiwn."***

- Rhagweld canlyniad newidiadau.

***"Beth fyddai'n digwydd petai....?"***

- Adnabod yr achos .

***"Beth wnaeth i ??? ddigwydd?"***

- Esbonio.

***"Sut fedri di ddweud fod ??? yn drist?"***

# Lefel 4 : YN DY BEN DI

**Datrys problemau ar lefel fwy cymhleth, rhoi esboniadau a barn eu hunain. Ateb cwestiynau 'Pam?'**

- **Datrys problem o safbwynt ei hun neu rhywun arall .**

  ***"Beth fysa ti'n gallu ei wneud?" "Sut fedrwn ni drwsio fo?"***
- Cyfiawnhau.

  ***"Pam bod y blodyn yn tyfu?"***
- Egluro pam na ellir gwneud rhywbeth.

  ***"Pam na allwn ni dyfu planhigyn heb bridd?"***
- Egluro geiriau cyfansawdd (compound words) .

  ***"Pam bod hwn yn cael ei alw yn fwrdd gwyn/pren mesur?"***

# Pam bod Blank yn bwysig?

- Asesu'r math o gwestiynau mae'r plentyn yn ei ddeall.
- Asesu sgiliau rhesymu llafar plentyn.
- Sicrhau ein bod yn realistig ynglyn a'r iaith yr ydym yn disgwyl i'r plentyn ei ddeall.
- Addasu ein hiaith i lefel y plentyn.
- Gallu datblygu sgiliau rhesymu llafar plentyn.
- Cefnogi dysgu'r plentyn mewn gwahanol agweddau o'r cwricwlwm.
- Delio yn fwy effeithiol gyda materion ymddygiad.

# Datblygiad Medrau Rhesymu Llafar

- 60% o blant 3 oed yn deall cwestiynau ar Lefel 1 a 2
- 60% o blant 5 oed yn deall cwestiynau ar Lefel 3 a 4

**enwi gwrthrychau**




**disgrifio gwrthrychau**

**rhesymu a datrys problemau**

**trefnu digwyddiadau**


Taflen Asesu
Enw:
Ysgol:
BLANK
Lefel 1
Lle mae ………?
Dangos …… i mi
Be ydi hwn?
Lefel 2
Pwy sy'n……..?
Be mae ……. yn neud?
Lle mae …….yn…….?
nodweddion lliw, maint. siap,categor i, pwrpas
Lefel 3
Be mae ……..yn ddweud?
Be mae ……… yn feddwl ?
Sut mae ……… yn teimlo ?
Cofio a dilyn cyfarwyddiadau
Ail-ddweud straeon
Trefnu lluniau
Be sy'n digwydd gyntaf,wedyn yn olaf?
Lefel 4
Pam mae …?
Be 'da ni am wneud?
Sut ti'n gwybod?